# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.30)

## 2 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgiadol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

(14.30 - 15.30) (Tudalennau 1 - 22)

Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (Aelod sy'n gyfrifol am y Bil)
Tania Nicholson, Pennaeth Rhaglen Ddeddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol, Llywodraeth Cymru
Mair Roberts, Cyfreithwraig, Llywodraeth Cymru
Catherine Lloyd, Cyfreithwraig, Llywodraeth Cymru

**CLA(5)-06-17** - Briff y Gwasanaeth Ymchwil
**CLA(5)-06-17** - Nodyn Cyngor Cyfreithiol (Saesneg yn unig)
**CLA(5)-06-17 - Papur 1** - Gohebiaeth gan y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 14 Chwefror 2017

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), fel y'i cyflwynwyd (PDF, 342KB)
Memorandwm Esboniadol (PDF, 3.1MB)
Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil (PDF, 517KB)
Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft - Chwefror 2017 (PDF, 3.2MB)

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(15.30 - 15.35) (Tudalennau 23 - 25)

**CLA(5)-06-17 – Papur 2** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offeryn y Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**SL(5)062 - Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017**

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)063 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**SL(5)064 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017**

**SL(5)066 - Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017**

## 4 Papurau i'w nodi

(15.35 - 15.40)

**Bil Cymru Llywodraeth y DU: Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

(Tudalennau 26 - 28)

**CLA(5)-06-17 – Papur 3** – Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Adran 69 – Darpariaeth Ganlyniadol, 12 Chwefror 2017 (Saesneg yn unig)
**CLA(5)-06-17 – Papur 3a** – Gohebiaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Adran 69 – Darpariaeth Ganlyniadol, 27 Ionawr 2017

**Llais cryfach i Gymru: Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

(Tudalennau 29 - 30)

**CLA(5)-06-17 - Papur 4** - Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 30 Ionawr 2017

**Llais cryfach i Gymru: Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

(Tudalennau 31 - 32)

**CLA(5)-06-17 - Papur 5** - Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Chwefror 2017

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(15.40)

## 6 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgiadol (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(15.40 - 15.55)

## 7 Llais cryfach i Gymru: Cloi ffrwd I a dull gweithredu ffrwd II yr ymchwiliad

(15.55 - 16.05) (Tudalennau 33 - 43)

**CLA(5)-06-17 - Papur 6** - Cloi ffrwd I a dull gweithredu ffrwd II yr ymchwiliad (Saesneg yn unig)

## 8 Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Adroddiad drafft

(16.05 - 16.20) (Tudalennau 44 - 75)

**CLA(5)-06-17 - Papur 7** - Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

**CLA(5)-06-17 – Papur 8** – Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017 (Preifat)

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

6 Mawrth 2017

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-L/ARD/0088/17

Lynne Neagle
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales

14 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a fynychais ar 12 Ionawr, rhoddais gopi o'r drafft diweddaraf o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r Pwyllgor er mwyn llywio eich proses o graffu ar y Bil. Mae fersiynau dwyieithog wedi'u hamgáu.

Rydw i'n darparu copi o'n Datganiad o Fwriad y Polisi hefyd mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth y darperir ar ei chyfer yn y Bil. Eto, mae dogfennau dwyieithog wedi'u hamgáu.

Yn dilyn yr ymgynghorid ar y Bil drafft yn 2015, rydym wedi gweithio'n helaeth ar y Cod drafft. Bu grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr datblygu cynnwys y cod, a oedd yn cynnwys partneriaid darparu allweddol a chynrychiolwyr y trydydd sector, yn gweithio'n ddiwyd ar y drafft diweddaraf. Mae llawer o'r cynnwys diwygiedig wedi'i ddarparu'n uniongyrchol gan y rhai y bydd gofyn iddynt weithredu'r system newydd.

Fodd bynnag, mae gwaith yn dal i gael ei wneud ar y drafft cyfredol a bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu'r cynnwys. Bydd y darpariaethau cyfredol yn cael eu hatgyfnerthu a'u cefnogi mewn rhai meysydd drwy ddarparu rhagor o fanylion a gwybodaeth ategol, er enghraifft drwy gynnwys rhagor o enghreifftiau o arferion da. Mae'n anochel y bydd adrannau o'r Cod yn esblygu ac mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag adrannau o'r Bil sy'n cynnwys pwerau rheoleiddio, fel yr amlygir drwy'r drafft mewn testun italig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hefyd yn wir y bydd angen newidiadau o bosibl o ganlyniad i welliannau a wneir i'r Bil wrth iddo fynd ar ei daith drwy'r Cynulliad. Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro hyn.

Ar y sail hon, er fy mod yn cydnabod pa mor bwysig yw'r Cod o ran deall y ffordd mae'r system yn gweithredu'n ymarferol, hoffwn bwysleisio fy mod yn trefnu i'r drafft hwn fod ar gael at ddibenion enghreifftiol yn unig er mwyn eich helpu gyda'r broses o graffu ar y Bil. Nid yw'r drafft hwn o'r Cod yn destun craffu.

Bydd fersiwn o'r Cod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn (yn unol ag adran 5 y Bil), gan dybio bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Byddai'r drafft hwnnw yn canfod unrhyw newidiadau angenrheidiol sy'n codi o welliannau i'r Bil yn ystod ei hynt, drwy'r adborth a dderbyniwn yn y cyfamser a thrwy ein gwaith datblygu parhaus gydag ymarferwyr. Yn dilyn ymgynghori ac unrhyw newidiadau dilynol, byddai drafft o'r Cod yn cael ei roi gerbron y Cynulliad yn ôl trefniadau'r Cod sydd wedi'u cynnwys yn adran 5 y Bil.

Gobeithio y bydd y dogfennau hyn yn fuddiol ac edrychaf ymlaen at fy ymddangosiad nesaf gerbron y Pwyllgor.

Rydw i'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, o gofio ei bod yn debygol y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y Cod drafft ac yn y Datganiad o Fwriad y Polisi ac o gofio fy ymddangosiad o flaen y Pwyllgor maes o law i drafod y Bil.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

Eitem 3

27 Chwefror 2017

## SL(5)062 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud gan gyfuniadau o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Gwnaed Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau") o dan y pwerau yn adran 166 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau partneriaeth gael eu gwneud gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol penodedig o dan gyfarwyddyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r prif Reoliadau hefyd yn pennu swyddogaethau'r awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sydd i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Mae Rheoliadau 2017 yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn ychwanegu'r swyddogaethau o dan adran 14A o Ddeddf 2014 at y rhestr o swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol a bennir i gael eu cyflawni gan y trefniadau partneriaeth.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rheoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) drwy hepgor rheoliad 19(1)(c) ac ychwanegu rheoliad newydd 19(1A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth ystyried a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun os ydynt yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i asesiad o dan adran 14 o Ddeddf 2014 (a adwaenir fel asesiad poblogaeth).

Maent hefyd yn diwygio Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (sy'n pennu swyddogaethau cymorth i deuluoedd timau integredig cymorth i deuluoedd) er mwyn mewnosod cyfeiriad at swyddogaethau o dan Ran 6 o Ddeddf 2014, i'r graddau y maent yn ymwneud â diwallu anghenion gofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol a darparu cyngor a chymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fe'u gosodwyd ar**: 8 Chwefror 2017

**Yn dod i rym ar**: Heb ei nodi

## SL(5)063 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw ardrethi annomestig a gyflwynir gan awdurdodau bilio yng Nghymru, ac ar gyfer y wybodaeth sy'n rhaid mynd law yn llaw â hysbysiad galw am dalu a gyflwynir ganddynt. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiadau galw am dalu a ddyroddir mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2017 neu wedi hynny.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar**: 8 Chwefror 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 10 Chwefror 2017

**Yn dod i rym ar**: 13 Mawrth 2017

## SL(5)064 – Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 ("Rheoliadau 2016").

Mae rheoliadau 10, 23 a 34 o Reoliadau 2016 wedi eu diwygio i alluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gymhwyso i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol drwy Reolau'r Drefniadaeth Sifil am wŷs tyst. Gwneir y diwygiad mewn perthynas â phanel apelio cofrestru, panel addasrwydd i ymarfer a phanel gorchmynion interim.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar**: 7 Chwefror 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 14 Chwefror 2017

**Yn dod i rym ar**: 3 Ebrill 2017

## SL(5)066 – Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygio) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae swyddogaethau craidd awdurdodau tân ac achub wedi eu nodi yn adrannau 6 i 8 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("y Ddeddf"). Y swyddogaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch rhag tân, diffodd tân a damweiniau traffig ffyrdd yw'r rhain. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu drwy orchymyn swyddogaethau craidd eraill sy'n ymwneud ag argyfyngau y mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ddarparu ar eu cyfer. Mae "emergency" wedi ei ddiffinio yn adran 58 o'r Ddeddf.

Pennodd Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3193 (Cy. 280)) ("Gorchymyn 2007") swyddogaethau mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; argyfyngau sy'n ymwneud ag adeiledd yn cwympo; ac argyfyngau sy'n ymwneud â threnau, tramiau neu awyrennau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007. Mae erthygl 2(2) o'r Gorchymyn hwn yn pennu swyddogaethau mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n ymwneud â llifogydd a dyfroedd mewndirol. Mae erthygl 2(3) yn estyn erthygl 4(a) o Orchymyn 2007, sy'n pennu'r pethau y mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub eu gwneud wrth ddarparu ar gyfer argyfyngau a nodir yng Ngorchymyn 2007. Yn y dyfodol, fel rhan o ddarparu ar gyfer yr argyfyngau hynny, bydd yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub sicrhau y darperir cyfarpar.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

**Fe'i gwnaed ar**: 15 Chwefror 2017

**Fe'i gosodwyd ar**: 20 Chwefror 2017

**Yn dod i rym ar**: 1 Ebrill 2017

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ

www.gov.uk/wales www.gov.uk/cymru

Huw Irranca-Davies AM
Chair of Constitution and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ref: 9SOS 17

12th February 2017

Dear Huw,

**Wales Act 2017: Section 69 – Consequential Provision**

Thank you for your letter of 27 January regarding your concerns about section 69 of the Wales Act 2017 which allows UK Ministers to amend Assembly legislation as a consequence of provisions in the Act.

The circumstances in which the power would be used were clearly explained during the parliamentary stages of the Wales Bill. My letters to the First Minister and Presiding Officer provide further assurance.

I believe the provision is a sensible and pragmatic way to ensure consistency across the statute book resulting from implementing the Wales Act. I do not agree your assertion that the approach adopted is constitutionally unsound.

I intend to keep the Welsh Government and Presiding Officer fully informed as devolution guidance is drafted to reflect the new reserved powers model and other related provisions in the Act.

I am copying this letter to the First Minister and the Presiding Officer

Yours,

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Alun Cairns
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Ionawr 2017

Annwyl Alun,

**Bil Cymru: Cymal 69 – Darpariaeth ganlyniadol**

Diolch i chi am y copïau o'ch llythyrau ar 13 Rhagfyr 2016 at y Llywydd a'r Prif Weinidog.

Rwy'n awyddus i'r Pwyllgor hwn hyrwyddo dealltwriaeth o gyfansoddiad Cymru sy'n codi o ganlyniad i wahanol Ddeddfau Seneddol y DU yn ymwneud â datganoli yng Nghymru.

Ar y sail hon, mae pwynt yn eich llythyr yr ydym am gael eglurder yn ei gylch.

Mae cymal 69 o Fil Cymru (cymal 53 gynt ac yna cymal 60) yn caniatáu i Weinidogion y DU i ddiwygio deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol, mewn rhai amgylchiadau, heb gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ym mhennod 11 o'n hadroddiad ar y Bil, rydym yn mynegi pryder am y ddarpariaeth hon.

Mae eich llythyrau at y Llywydd a'r Prif Weinidog yn dweud:

> "The power to amend Assembly legislation is mirrored by similar powers in a number of Acts of the Assembly that enable Welsh Ministers to modify parliamentary legislation in consequence of Assembly Act provisions without recourse to Parliament."

Ond nid yw'n briodol cymharu pwerau Gweinidogion Cymru i addasu deddfwriaeth Senedd y DU â phwerau Gweinidogion y DU i addasu deddfwriaeth y Cynulliad. Mae cyd-destunau'r pwerau hynny yn wahanol iawn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Y rheswm y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth Senedd y DU yw bod y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU ill dau wedi cydsynio’n benodol, ar ôl i’r Cynulliad Cenedlaethol gydsynio yn Neddf alluogi berthnasol y Cynulliad ac ar ôl i Senedd y DU gydsynio drwy basio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (a Deddfau datganoli dilynol) yn y lle cyntaf.

Mewn cyferbyniad â hynny, rhoddwyd i Weinidogion y DU bŵer i addasu deddfwriaeth y Cynulliad heb i'r Cynulliad Cenedlaethol gael cyfle i gydsynio yn benodol i'r pŵer hwnnw. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cymru, ond cydsyniad cyffredinol i Fil Cymru yn gyffredinol oedd hynny. Fel arfer, bydd gan ddeddfwrfeydd gyfle i gytuno ar ddeddfwriaeth fesul adran, ond nid oedd y cyfle i wneud hynny ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol yn achos cymal 69 o Fil Cymru.

Mae'n bosibl y bydd rhai'n gweld y newidiadau y gellir eu gwneud o dan gymal 69 yn rhai dibwys, ond mae'n rhaid iddynt fod â phwrpas cyfreithiol, a rhaid eu bod yn newid y gyfraith. Rydym o'r farn bod y dull a fabwysiadwyd yng nghymal 69 yn gyfansoddiadol gyfeiliornus a'i fod yn mynd yn groes i'r egwyddor a nodir yng nghymal 2.

Yn gysylltiedig â chymal 2 a'r materion uchod, credwn fod lle i Ganllaw ar Ddatganoli 9 wedi ei ddiweddaru roi eglurhad, yn enwedig ynghylch unrhyw weithdrefn cydsyniad y disgwylir iddi fod ar waith pan fo Gweinidogion y DU yn bwriadu addasu deddfwriaeth y Cynulliad, boed hynny o dan gymal 69 pŵer neu drwy fodd arall. Byddem yn ddiolchgar o gael ein hysbysu ynghylch hynt y gwaith i ddiweddaru Canllaw ar Ddatganoli 9.

Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee



**Huw Irranca-Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

30 Ionawr 2017

**Ymchwiliad i ddysgu rhyng-sefydliadol**

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am eich ymchwiliad i gysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cymru a'r DU.

Yn sgil eich llythyr, trafododd y Pwyllgor y mater hwn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr. Ein barn ni yw bod trefniadau cadarn ar gyfer gwaith rhyng-seneddol a chysylltiadau rhwng Pwyllgorau Seneddol yn hanfodol ar gyfer gwneud gwaith craffu effeithiol, a hefyd yn gallu hwyluso'r broses o gyfnewid syniadau a gwella'r broses o ddysgu am bolisïau. O ran cylch gwaith ein Pwyllgor ni, mae hyn yn arbennig o wir, er enghraifft mewn perthynas â materion trawsffiniol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd o'r farn bod lle i wella o ran y ffordd y mae adrannau Llywodraeth y DU yn cydweithio â phwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â chraffu ar faterion polisi lle ceir gorgyffwrdd rhwng meysydd datganoledig a meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'n ymddangos bod y math hwn o gydweithio yn aml yn cael ei ysgogi gan weithgarwch Gweinidog neu was sifil unigol yn hytrach na dealltwriaeth gydnabyddedig bod y math hwn o gydweithio yn hanfodol a bod ganddo'r potensial i fod o fudd i bawb sy'n ymwneud â'r materion o dan sylw.

Rydym yn deall, er enghraifft, fod y Pwyllgor blaenorol wedi wynebu heriau wrth geisio ymgysylltu â Gweinidog a swyddogion perthnasol y Swyddfa Gartref yn ystod ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd, a hynny mewn perthynas â rhai meysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli ond a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r ymchwiliad. Cafodd mater hwnnw ei ddatrys yn y pen

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

draw, gyda thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn dod i law—ond dim ond yn dilyn ymdrechion di-ri i ymgysylltu gan staff y Pwyllgor a gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor bryd hynny.

Rydym yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'r mater pwysig hwn, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed eich casgliadau maes o law.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee



Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

16 Chwefror 2017

Annwyl Huw,

**Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a sefydliadau datganoledig**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ionawr 2017. Roedd aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn awyddus i ymateb i'ch galwad am wybodaeth ynglŷn â gweithio rhyng-sefydliadol. Mae fy sylwadau ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ymwneud yn uniongyrchol â Ffrwd II: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol ar faterion polisi.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sefydlu cysylltiadau gwaith da â phwyllgorau cyfatebol yn Senedd y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar faterion o ddiddordeb a phryder cyffredin. Yn benodol, rydym yn credu ei bod yn bwysig iawn sefydlu cyswllt â gwaith ar iechyd, tlodi a cham-drin plant mewn rhannau eraill o'r DU drwy archwilio eu hymyriadau hwy. Mae llawer iawn o gyfle i'r Pwyllgor ddatblygu cysylltiadau â phwyllgorau cyfatebol yn Holyrood, Stormont a San Steffan. Rwyf wedi trafod hyn â staff y Pwyllgor ac rwy'n awyddus iddynt archwilio i feysydd y gellid ymchwilio iddynt ar y cyd â gweinyddiaethau eraill.

Er mwyn rhoi syniad o'r cefndir ichi, aeth Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Pedwerydd Cynulliad ati'n benodol i gynnal gwaith y tu allan i Gymru. Un cam nodedig a gymerodd y Pwyllgor oedd cyfarfod â Quality and Qualifications Ireland a'r Scottish Qualifications Authority cyn cyflwyno'r Bil Cymwysterau (Cymru). Gwnaeth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

hyn gyfraniad allweddol at lunio dull y Pwyllgor o gynnal y gwaith craffu, ac yn y pendraw at lywio ffurf y corff cymwysterau newydd.

Mae'n werth nodi hefyd bod y Pwyllgor wedi ymweld â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn ei bencadlys ym Mharis. Cyfarfu'r Pwyllgor â'r rhai sy'n gyfrifol am y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), ac adolygiad OECD o system addysg Cymru. Gwnaeth yr ymweliadau hyn gyfraniad hollbwysig at lunio ein dull o graffu gan ddylanwadu, yn eu tro, ar bolisïau Llywodraeth Cymru.

Gan fynd yn ôl at yr Ail a'r Trydydd Cynulliad, cynhaliodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes rywfaint o waith canfod ffeithiau ym maes polisi gyda'r gweinyddiaethau datganoledig. Ystyriwyd bod y gwaith hwn yn hanfodol o ran llywio ymchwiliadau a gwaith cynllunio.

Bydd llawer o'r materion polisi y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried yn debyg iawn i faterion mewn rhannau eraill o'r DU, Ewrop a thu hwnt. Fel y cyfryw, rwy'n credu'n gryf y byddai gwaith ein Pwyllgor yn elwa ar ddatblygu gwell cysylltiadau rhyng-sefydliadol. Byddem yn croesawu unrhyw gyngor neu gefnogaeth gan eich Pwyllgor i'n cynorthwyo i gyflawni hyn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon